**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Gorffennaf 20fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Raymond Bartley, Geraint Williams, Roy Tickle, Gaynor Wood, a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Colin L Hughes, Catherine Jones

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fehefin 15fed 2015.**

3. **Materion yn codi:** (1) Cadarnhawyd fod y torri glaswellt yn Ninbych Isaf bellach yn cymryd lle, er hynny, roedd problemau yn dal i fodoli yn Ninbych Uchaf.
(2) Cadarnhaodd y Cyng Kensler fod gwaith ar gylchfan Pwll y Grawys wedi ei gyflwyno i'r cabinet am gymeradwyaeth.

A. <u>**Amgylchedd**</u>

1. **Sbwriel.** Gofynnodd y cadeirydd beth oedd statws presennol tîm Trefi Taclus ac awgrymodd y posibiliad o ffurfio corff o wirfoddolwyr sbwriel yn y dref - cytunwyd i hyn fod yn eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.

2. **Gardd Goffa Dr Evan Pierce:** Boules - caniatawyd y cais i ddefnyddio'r ardd goffa ar gyfer cystadlaethau Boules.

3. **Clwb Bowlio y Parc Isaf:** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost yn gofyn i'r cyngor tref ddarparu arwydd ar gyfer pafiliwn y Parc Isaf. Cafwyd cryn drafodaeth ar y cais. Mynegwyd nifer o bryderon, yn arbennig y posibilrwydd y byddai'r eirfa "supported by Denbigh Town Council" yn achosi mwy o geisiadau ariannu eraill. Byddai unrhyw arwyddion ar y pafiliwn angen caniatâd CSDd. Roedd mwy na un clwb yn defnyddio'r pafiliwn. Gofynnwyd cwestiwn a oedd y les wedi ei harwyddo. Cytunwyd i yrru llythyr i'r clwb bowlio yn dweud y byddai unrhyw arwydd angen caniatâd CSDd ac i ofyn a oedd y les wedi ei harwyddo. Byddai angen i unrhyw arwydd fod yn ddwyieithog.

4. **Symud bin sbwriel o du allan i'r Vaults ar y Stryd Fawr:** Eglurodd y Cyng Bartley fod daliwr trwydded y Vaults wedi sôn wrtho am hyn. Er i'r bin gael ei symud roedd yn ymddangos fod sbwriel yn cael ei adael ar Lôn Brombil. Dywedodd y Cyng Kensler y symudwyd y bin fel rhan o brosiect Lôn Brombil am ei fod yn ddiolwg. Dywedwyd fod tîm glanhau'r strydoedd heb sylwi ar unrhyw newidiadau ynglŷn â sbwriel yn y rhan yma o'r dref. Cytunwyd nad oedd unrhyw wir ateb i'r broblem ac i aelod y ward ganol hysbysu daliwr trwydded y Vaults fod y cyngor tref wedi trafod y mater.

5. **Lôn Gefn, Dinbych:** Cyfeiriodd y cadeirydd at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth L M Broad o Llannerch Park. Cytunodd y cyfarfod fod Lôn Gefn angen ymgodiad. Cytunwyd i gydnabod y llythyr. Copi o'r llythyr i'w yrru i Trevor Carr (CSDd) gyda chopi I Rebecca Maxwell - cyfarwyddwr corfforaethol CSDd a chynllunio CSDd.

**6.** **Hen siop Mortimer, Pwll y Grawys:** Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr yr adeilad yma ac i'r pryderon gael ei gyrru ymlaen i Gynllunio CSDd.

**B.** **<u>Finance</u>**

**1.** **Cyfrifon:** Cymeradwywyd taliad y cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Paul Liversidge - clirio llwybrau (Mai)<br>(Rhif siec 005661) | - | £165.00 |
| (2) | Marian Rees - gwasanaeth cyfieithu 22.6.15<br>(Rhif siec 005662) | - | £85.00 |
| (3) | A E Bloomfield (Uproar) - blaen dal noson tân gwyllt<br>(Rhif siec 005663) | - | £3,200 |
| (4) | Scottish Power - Gardd Dr E P<br>(Rhif siec 005664) | - | £104.95 |
| (5) | Sodexo - cynnal a chadw gardd Dr E P (Mehefin)<br>(Rhif siec 005665) | - | £605.88 |
| (6) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 15.6.15 (2 gyfarfod)<br>(Rhif siec 005666) | - | £175.20 |
| (7) | Hywel Evans - trefn gwasanaeth Sul Dinesig<br>(Rhif siec 005667) | - | £30.00 |
| (8) | CSDd - adnewyddiad blynyddol loteri Maer Dinbych<br>(Rhif siec 005668) | - | £20.00 |
| (9) | UHY Hacker Young - adroddiad archwilydd allanol<br>(Rhif siec 005669) | - | £528.00 |
| (10) | CGGSDd - aelodaeth blynyddol 2015/2016<br>(Rhif siec 005670) | - | £15.00 |
| (11) | CCTCGC - tal aelodaeth 2015<br>(Rhif siec 005671) | - | £125.00 |
| (12) | CSDd - gosod bunting<br>(Rhif siec 005672) | - | £396.00 |
| (13) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Mehefin)<br>(Rhif siec 005673) | - | £14.88 |
| (14) | Whitegates Inns Ltd - lluniaeth Sul Dinesig<br>(Rhif siec 005674) | - | £396.15 |
| (15) | CCTGC - 1 pryd bwyd cynrychiolydd 17.7.15<br>(Rhif siec 005675) | - | £15.00 |
| (16) | Marian Ll Rees - elfen TAW bil (rhif 2) uchod<br>(heb ei gynnwys yn y siec)<br>(Rhif siec 005677) | - | £17.00 |

Cyfanswm taliadau: £5,893.06

**2.** **Derbyniwyd Adroddiad ariannol cyfnod 1.4.15 - 30.06.15.**

**3.** **Nodwyd yr adroddiad ariannol chwarterol** (30.6.15). Mewn ateb i gwestiwn ar gynnal a chadw'r parc sglefrio dywedwyd na dderbyniwyd ymateb. Rhannodd y Cyng Kensler wybodaeth oedd yn dangos nad dderbynnir gwerth yr arian. Cytunwyd fod angen diweddariad.

**4.** **Cysoniad Chwarterol y Banc 2015/2016.** Yn ystod y cyfarfod archwiliwyd cysoniad chwarter Mehefin 2015 yn y llyfr arian gan bedwar aelod oedd yn bresennol ac ardystiwyd y cofnodion yn unol â hynny.

**5.** **Nodwyd derbyn £16 oddi wrth Mr R M Owen ynglŷn â gwerthiant y llyfryn "Enwogion Dinbych".**

**6.** **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd yr e-bost yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth Gymdeithas Eirin Dinbych a Grŵp Busnes Dinbych a llythyr o ddiolch a dderbyniwyd oddi wrth Glwb Golff Dinbych.

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Sioe Dinbych - £3,000 (A.137)(rhif siec 005676)
(2) Capel Mawr Dinbych. (Datganodd y Cyng Bartley ddiddordeb personol). Cytunwyd i ohirio penderfyniad tan fis Medi hyd nes derbyn canlyniad ceisiadau grantiau eraill gan yr ymgeisydd.
(3) Deial i Deithio - derbyniwyd llythyr ar Orffennaf 18fed. Cytunwyd I ohirio penderfyniad er mwyn derbyn ffurflen gais a gwybodaeth am weithgarwch Deilo i Deithio yn Ninbych.
(4) Ruthin and Denbigh Gymnastics Club - derbyniwyd y llythyr ar Orffennaf 18fed. Cytunwyd i ohirio penderfyniad i dderbyn ffurflen gais.

4. Drysau'n Agored yn Ninbych. (Datganodd y Cyng Bartley ddiddordeb personol).
Cais gan Gymdeithas Ddinesig Dinbych i ail ddyroddi siec cymorthdaliadau am £1,000 a yrrwyd yn ôl gan y Gymdeithas Ddinesig. Cafwyd ar ddeall y byddai'r Gymdeithas Ddinesig yn cynnal unrhyw ariannu a dderbynnir ar gyfer Drysau'n Agored. Cytunwyd i ddyroddi siec cymorthdaliadau newydd am £1,000 (Rhif siec 005680).

**7.** **Adroddiad Archwiliad Allan cyfrifon 2014/2015:** Dywedodd clerc y dref fod adroddiad glan wedi ei roddi. Diolchodd y cadeirydd i glerc y dref am ei waith caled a diwydrwydd.

**8.** **Archif Gymunedol Dinbych.** Dywedodd clerc y dref fod cais wedi ei dderbyn oddi wrth dîm yr archif gymunedol am fwy o offer oedd ei angen i gyflawni'r cynnydd mewn gwaith oedd yn mynd ymlaen. Derbyniwyd rhestr o anghenion a chostau. Cytunwyd i gefnogi'r cais mewn egwyddor ac i glerc y dref gael costau oddi wrth gyflenwr y cyngor.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.07 o'r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................